

# Trawsnewid Treftadaeth yng Nghymru Nodiadau Cymorth Cais am Grant

Y Gronfa Treftadaeth Bensaernïol

[www.ahfund.org.uk](http://www.ahfund.org.uk)

[Mai 2021]



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



The Pilgrim Trust

## Beth yw pwrpas y nodiadau hyn?

Mae'r nodiadau hyn yn cynnwys canllawiau ar sut i lenwi'r ffurflen gais ar-lein ar gyfer y canlynol:

- 
- Grantiau Hyfywedd Prosiect
- 
- Grantiau Datblygu Prosiect
- 
- Grantiau Gwaith Cyfalaf. Mae gofynion ychwanegol ar gyfer y grantiau hyn. Cadwch lygad am y **Grantiau Gwaith Cyfalaf** wrth i chi fynd trwy'r nodiadau am ganllawiau ychwanegol.
- 

**Darllenwch y nodiadau hyn yn llawn i ddeall y wybodaeth y bydd angen i chi ei darparu wrth wneud eich cais. Yn ogystal â'r cwestiynau ar y ffurflen, bydd angen i chi lanlwytho dogfennau ategol fel atodiadau.**

**Gwiriwch y dyddiadau cau ar gyfer ceisiadau ar ein gwefan hefyd. Mae'r rhain yn amrywio yn dibynnu ar y math o grant a maint y grant rydych chi'n gofyn amdano. Mae ceisiadau sy'n ceisio mwy na £10,000 yn cael eu penderfynu bob chwarter, tra bod ceisiadau llai yn cael eu penderfynu'n gyflymach.**

## Defnyddio ein ffurflen gais ar-lein

Nid oes angen i chi gwblhau'r cais ar yr un pryd: dilynwch y cyfarwyddiadau ar ddechrau'r ffurflen ar-lein i gadw eich gwaith wrth i chi fynd yn eich blaen, ac yna i ail-ddechrau cais sydd wedi'i gwblhau'n rhannol yn ddiweddarach. Rydym yn eich annog i ddefnyddio fersiwn dogfen Word o'r ffurflen gais i lunio'ch atebion ymlaen llaw ac yna ei gopïo a gludo i'r ffurflen ar-lein.

Mae gan nifer o gwestiynau gyfrif geiriau cyfyngedig er mwyn annog atebion cryno; dylech ysgrifennu cymaint ag sy'n angenrheidiol hyd at yr uchafswm hwn. Mae'n bwysig cadw at y rhain gan na fydd unrhyw destun sy'n fwy na'r cyfrif geiriau yn ymddangos yn eich cais a gyflwynwyd. Os ydych chi'n paratoi'ch atebion all-lein yn gyntaf, nodwch y gellir y cyfrif geiriau fod ychydig yn wahanol ar y ffurflen ar-lein, felly mae'n syniad da i roi gorau i ysgrifennu pan fydd y cyfrif geiriau ychydig yn llai na nifer geiriau uchaf.

Ar ôl i chi gyflwyno'ch ffurflen ar-lein, bydd copi yn cael ei anfon drwy e-bost at y prif gyfeiriad cyswllt rydych chi wedi'i nodi ar y ffurflen, fel y byddwch chi'n gallu cadw hwn er mwyn cyfeirio ato.

# Beth sy'n digwydd unwaith y bydd eich cais wedi'i gyflwyno?

Byddwn yn anfon nodyn atoch i roi gwybod ichi ein bod wedi derbyn eich cais. Efallai y bydd gennym ymholiadau yn ystod ein hasesiad, ac os felly, byddwn yn cysylltu. Efallai y byddwn hefyd am ymweld â'ch adeilad os nad ydym wedi ymweld cyn eich cais. Byddwn yn asesu'ch cais yn unol â'r meini prawf a nodir yn y Canllawiau Grant, gan ystyried y wybodaeth a ddarperir yn eich ffurflen gais a'ch dogfennau ategol. Mae'r canllawiau yn y Nodiadau Cymorth hyn yn esbonio'r hyn yr ydym yn edrych amdano a'r hyn y mae angen ichi ei ddweud wrthym i'n helpu i wneud penderfyniad.

## Beth i'w ddweud wrthym

Yn eich cais, gofynnir i chi ddweud mwy wrthym am eich sefydliad, eich adeilad a'ch cynlluniau ar ei gyfer, yr ardal y mae wedi'i leoli, a'r gwaith a'r costau rydych chi am i ni eu hariannu. Yn ogystal â hyn, gofynnir ichi ddarparu dogfennau ategol - mae rhestr wirio ar ddiwedd y nodiadau hyn. Wedi'u cyfuno â'ch atebion cais, bydd y wybodaeth hon yn ein helpu i benderfynu a ddylid cynnig grant ai peidio.

**Mae'r rhifau isod yn cyfeirio at rif y cwestiwn ar y ffurflen gais.** Lle nad yw cwestiwn wedi'i gynnwys isod, mae hynny oherwydd dylai'r ateb fod yn hunaneglur. Nodir y terfynau geiriau, lle bo hynny'n berthnasol, mewn cromfachau sgwâr [ ].

### **Grantiau Gwaith Cyfalaf**

Pan welwch hwn yn y nodiadau, mae canllawiau ychwanegol ar yr hyn yr ydym am ei ddeall am y cynigion prosiect hyn. Mae'n bwysig dweud wrthym am yr agweddau hyn ar eich cynlluniau. Rydym am i'r prosiectau hyn ddangos sut y gellid mynd i'r afael â'r set amrywiol o heriau sy'n wynebu adeiladau hanesyddol a'u lle mewn cymdeithas. Byddwn yn ystyried y lledaeniad daearyddol, y math o adeilad, y defnydd/defnyddiau terfynol, y math o sefydliad cyflenwi, a natur unrhyw bartneriaethau.

## Adran 0: Math o grant a'r lleoliad

### 0.1 Pa grant rydych chi'n gwneud cais amdano.

Gallwch ddewis un grant yn unig. Nid ydym yn derbyn ceisiadau am fwy nag un math o grant ar yr un pryd. Cysylltwch â ni os nad ydych yn siŵr pa grant sy'n gweddu orau i'ch anghenion.

### **Ceisiadau Grantiau Gwaith Cyfalaf**

Dewiswch "*Transformational Project Grant*" o'r rhestr.

### 0.2 Ym mha ranbarth neu wlad y mae'r prosiect wedi'i leoli?

Dim ond prosiectau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, Lloegr, yr Alban neu Gogledd Iwerddon y gallwn eu cefnogi. Os yw'ch sefydliad wedi'i leoli'n gyfreithiol mewn gwlad wahanol i leoliad y prosiect, dewiswch yr ardal sy'n cyfateb i leoliad y prosiect.

## Adran 1:Ynglŷn â'ch sefydliad

### 1.5 Statws cyfreithiol eich sefydliad.

Bydd cwmpfen o geisiadau cymwys yn ymddangos. Os nad ydych wedi'ch ymgorffori'n ffurfiol fel endid cyfreithiol ar hyn o bryd, defnyddiwch y categori Arall. Yn yr achos hwn, byddem yn ystyried cais am Grant Hyfywedd Prosiect yn unig: ar gyfer pob grant arall, mae'n rhaid i chi fod yn sefydliad nid-er-elw preifat corfforedig. Os nad yw'ch sefydliad yn elusen gofrestredig, mae'n rhaid bod ganddo gymal diddymu neu glo asedau digonol. Mae hon yn ddarpariaeth yn y ddogfen lywodraethol i amddiffyn ei hasedau. Mae'n golygu, os yw'r sefydliad yn cael ei ddirwyn i ben, rhaid trosglwyddo unrhyw asedau i sefydliad nid-er-elw tebyg (neu gorff enwebedig gyda chlo asedau) unwaith y bydd credydwr wedi'u talu.

**Mae'n ein helpu ni:** I wirio a ydych chi'n gymwys i gael ein cyllid.

### 1.7 A yw'ch sefydliad yn aelod o unrhyw rwydweithiau cenedlaethol neu sefydliadau ymbarél?

**Dywedwch wrthym am y canlynol:** Yn 1.7a, dywedwch wrthym a ydych yn aelod o Rwydwaith yr Ymddiriedolaeth Treftadaeth ac yn 1.7b, ychwanegwch unrhyw aelodaeth sydd gennych, er enghraifft, Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru, Cymdeithas Amgueddfeydd Annibynnol, Sefydliad Plunkett neu unrhyw rai eraill.

**Mae'n ein helpu ni:** I ddeall a ydych chi'n ymgysylltu'n ehangach yn y sector ac yn manteisio ar gyfleoedd i ddysgu gan eraill.

### 1.8 Disgrifiwch yn fras brif bwrpas eich sefydliad, ac eglurwch ei weithgareddau rheolaidd [250 gair]

**Dywedwch wrthym am y canlynol:** Y nodau allweddol a nodir yn eich dogfen lywodraethol a'r hyn yr ydych yn ei wneud ar hyn o bryd i gyflawni'r rhain, ynghyd ag enghreifftiau o gyflawniadau yn y gorffennol. Os ydych chi'n sefydliad newydd, eglurwch yr hyn rydych chi wedi'i wneud hyd yma i sefydlu ac adeiladu'ch sefydliad.

**Mae'n ein helpu ni:** I ddeall eich hanes, eich potensial a'r hyn yr ydych yn bwriadu ei gyflawni fel sefydliad. Rydym yn cydnabod y gallech fod yn y cyfnod datblygu cynnar, ond byddwn am weld bod gennych genhadaeth glir i'ch sefydliad. Rydym hefyd eisiau gwybod a oes cymorth a chynghor y gallwn eu cynnig i helpu'ch sefydliad i ddatblygu.

### 1.10 Manylion cyswllt

Dylai'r cysylltiadau fod yn bobl a fydd â rhan barhaus yn y prosiect, wedi'u hawdurdodi i siarad ar ran eich sefydliad ac mewn sefyllfa i ymateb i geisiadau am wybodaeth bellach os oes angen. Os yw un o'r cysylltiadau yn aelod o staff, dylai'r llall fod yn aelod o'ch Bwrdd. Yn gyffredinol, byddwn yn cysylltu â'r person cyntaf y byddwch chi'n darparu ei fanylion. Bydd y cyswllt hwn hefyd yn derbyn copi o'r cais a gyflwynwyd trwy e-bost.

## 1.11 Crynhowch sut y bydd eich sefydliad yn rheoli'r gwaith a ariennir gan grant a phasgiau a phrofiad y gallwch eu defnyddio [hyd at 300 gair]

**Dywedwch wrthym am y canlynol:** Strwythur eich sefydliad, gan gynnwys cyfansoddiad eich bwrdd llywodraethu, staffio neu wirfoddolwyr ac unrhyw strwythur rheoli prosiect rydych wedi'i roi ar waith. Esboniwch sut y byddwch yn cadw golwg ar gynnydd ac ansawdd y gwaith a ariennir. Pwy fydd yn gwneud penderfyniadau allweddol a sut y bydd risgiau'n cael eu rheoli? Pa sgiliau a phrofiad allwch chi eu defnyddio?

Os ydych chi'n bwriadu ymgymryd â'ch prosiect mewn partneriaeth â sefydliad arall, yna trafodwch hyn gyda'n Tîm cyn gwneud cais. Bydd angen i ni weld Cytundeb Partneriaeth neu Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth sy'n nodi'n fanwl sut y bydd y bartneriaeth yn gweithio.

**Mae'n ein helpu ni:** I ddeall eich gallu fel sefydliad i fwrw ymlaen â'r gwaith a ariennir yn llwyddiannus. Bydd hefyd yn ein helpu i nodi lle y gallai fod angen unrhyw help a chymorth.

### **Grantiau Gwaith Cyfalaf**

Byddwn eisieu gweld bod gan y sefydliad y gallu i gyflawni prosiect cyfalaf o'r math a gynigir.

## Adran 2: Ynglŷn â'r adeilad

**2.3** Rydym o'r farn bod prydles hirdymor yn gyfwerth â meddiant llwyr; os yw'r adeilad yn feddiant llwyr, dewiswch Rydd-ddaliad; os oes terfyn amser neu gyfyngiad arall ar gwmpas eich meddiant, dewiswch Lesddaliad, a rhowch wybodaeth bellach yn y blwch yn 2.4.

### **2.4 Os nad yw'r adeilad ym meddiant eich sefydliad eto**

**Dywedwch wrthym am y canlynol:**Eich rhagolygon ar gyfer caffael yr adeilad a'r mynediad corfforol iddo: amlinellwch eich llwybr disgwylidig i feddiant, a'r pwynt rydych chi wedi'i gyrraedd, e.e.

- A yw'r perchennog yn barod i werthu neu drosglwyddo'r adeilad i chi fel arall? Pa gam y mae eich trafodaethau wedi'i gyrraedd? A allwch ei gael mynediad i'r adeilad at ddibenion arolwg?
- A yw'r awdurdod lleol yn barod i ddefnyddio camau gorfodi os oes angen i sicrhau meddiant a throsglwyddo'r adeilad i chi, neu a ydyn nhw wedi eich derbyn fel cynigydd a ffefrir ar gyfer trosglwyddo'r ased?
- Os ydych chi'n defnyddio'r broses hawl i roi cynnig cymunedol, eglurwch ar ba gam rydych chi. Os ydych wedi galw eich hawl i roi cynnig, beth yw dyddiad gorffen y moratoriwm ar werth ar y farchnad agored?

Bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig o'r uchod gan y perchennog neu gan gorff perthnasol arall. Byddwn yn edrych am fwy o sicrwydd ynghylch y gobaith o ennill meddiant o'r adeilad yn dibynnu ar ba grant rydych chi'n ei geisio:

- Grantiau Hyfywedd Prosiect: llythyr gan y perchnogion yn cadarnhau eu parodrwydd mewn egwyddor i werthu ac i ganiatáu mynediad.
- Grantiau Datblygu Prosiect: Penawdau Telerau drafft ar gyfer gwerthu.

Disgwyliwn ichi gynllunio i naill ai fod yn berchen ar yr adeilad yn llwyr, neu gael prydles hirdymor wedi'i atgyweirio a'i neilltuo'n llawn i chi am o leiaf 25 mlynedd.

**Mae'n ein helpu ni:** I gadarnhau bod gan eich sefydliad siawns realistig o allu caffael yr adeilad ac y bydd gennych fynediad digonol i allu cyflawni'r gwaith datblygu.

## 2.8 Nodwch yr ystadegau demograffig perthnasol ar gyfer yr ardal cod post sy'n cynnwys eich adeilad gan ddefnyddio'ch data mynegai amddifadedd lluosog cenedlaethol fel ffynhonnell [Rhif gradd] [Degradd]

Ar wefan Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ([wimd.gov.wales](http://wimd.gov.wales)), nodwch god post yr adeilad, a nodwch yr ystadegau cryno ar gyfer y parth data a ddewiswyd. Nodwch y *gradd cyffredinol* yn y blwch rhif gradd, a'r rhif *degradd* yn y blwch degradd.

**Mae'n ein helpu ni:** I sefydlu demograffeg y gymuned uniongyrchol y mae eich prosiect yn debygol o'i gwasanaethu.

### 2.10 Rhowch ddisgrifiad byr o'r adeilad, ei ddefnydd, ei werth treftadaeth a'i bwysigrwydd i'r gymuned [hyd at 300 gair]

**Dywedwch wrthym am y canlynol:** Dyluniad, cynllun ac adeiladwaith yr adeilad, ei oedran a'i arwyddocâd treftadaeth. Os nad yw'r adeilad wedi'i restru, disgrifiwch yr hyn sy'n gwneud yr adeilad yn arwyddocâd treftadaeth. Esboniwch sut mae'r adeilad wedi'i ddefnyddio ar wahanol adegau ac sut mae'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd. Sut mae'n cael ei werthfawrogi gan y gymuned?

**Mae'n ein helpu ni:** I ddeall beth yw'r adeilad a'i amgylchiadau, gan gofio efallai nad ydym wedi ymweld â'r adeilad ar hyn o bryd. Mae hefyd yn ein helpu i ddeall arwyddocâd yr adeilad.

## Adran 3: Ynglŷn â'ch prosiect

### 3.1 Amlinellwch eich syniadau neu'ch cynlluniau ar gyfer yr adeilad: crynhowch y gwaith cyfalaf sydd ei angen a sut y gallai neu y bydd yr adeilad yn cael ei ddefnyddio [hyd at 300 gair]

**Dywedwch wrthym am y canlynol:** Eich syniadau ar gyfer defnyddio'r adeilad. Yn y cam Hyfywedd Prosiect, mae'r rhain yn debygol o fod yn bosibiliadau rydych chi am eu profi trwy'r gwaith a ariennir gan grant. Yn y cam Datblygu Prosiect, byddwch eisoes wedi nodi'r opsiwn a ffeirir gennych. Crynhowch pa waith y disgwylir i'r adeilad fod ei angen, yn atgyweiriadau ac yn addasiadau, er mwyn galluogi defnyddio'r adeilad yn y ffordd rydych chi'n cynllunio i'w ddefnyddio.

**Mae'n ein helpu ni:** I ddeall a oes gan eich prosiect y potensial i adfywio adeilad hanesyddol mewn ffordd sy'n cadw ei werth treftadaeth, wrth gyflwyno defnyddiau newydd hyfyw.

### 3.2 - 3.7 Beth ydych chi'n disgwyl fydd defnydd/defnyddiau terfynol yr adeilad gorffenedig? Nodwch ystadegau am y defnydd terfynol a'u graddfa.

Nid ydym yn disgwyl ichi allu bod yn fanwl gywir ar yr union faint o arwynebedd llawr neu swyddi sydd i'w creu; rydym yn chwilio am amcangyfrif o'ch syniadau cyfredol am yr hyn y gallai eich prosiect ei gyflawni, yn ogystal â'ch dyfaliad gorau yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd. Byddwn yn gofyn hyn ichi eto pan fydd y prosiect yn cael ei ddatblygu ymhellach.

**Mae'n ein helpu ni:** I ddeall graddfa buddion cymdeithasol ac economaidd posibl eich prosiect; sy'n caniatáu inni gasglu ystadegau i adrodd i'n cyllidwyr ein hunain.

### **Grantiau Gwaith Cyfalaf**

Bydd angen i chi fod â model datblygedig a chynlluniau manwl ar gyfer defnyddio a gweithredu'ch adeilad yn y dyfodol. Byddwn hefyd eisiau gweld cynigion dylunio sy'n cynnig datrysiad creadigol o ansawdd uchel i addasu'ch adeilad at ddefnydd newydd, ynghyd â dull o atgyweirio a throsi dan arweiniad cadwraeth. Mae ansawdd uchel yn golygu prosiectau sy'n cydymdeimlo â gwerth treftadaeth yr adeilad, wrth fod yn greadigol a gwella ansawdd y lleoliad a'r strydlun. Ni chefnogir prosiectau nad ydynt yn ymddangos eu bod yn werth da am arian. Bydd angen i chi ddarparu Cynllun Busnes ynghyd â gwybodaeth am y cynigion dylunio yn eich dogfennau ategol.

### **3.8 Esboniwch sut y bydd y prosiect o fudd i bobl, gan nodi pa angen a galw y bydd hyn yn ei ddiwallu [hyd at 250 gair]**

**Dywedwch wrthym am y canlynol:** Pwy fydd yn defnyddio'ch prosiect, gan ddisgrifio pa rannau o'r gymuned fydd yn elwa ohono, nodi'r rhai yr effeithir arnynt gan anfantais, a chyfeirio at y Mynegai Amddifadedd Lluosog lle bo hynny'n berthnasol. Esboniwch pa ymchwil rydych chi wedi'i wneud i nodi'r galw gan y defnyddwyr hyn a sut y bydd yn diwallu eu hanghenion. Gallai hyn gynnwys mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth gwasanaeth gyfredol, neu ymateb i newidiadau yn yr ardal leol. Esboniwch y swyddi, yr hyfforddiant a/neu'r cyfleoedd gwirfoddoli a fydd yn cael eu creu. Esboniwch ffyrdd eraill y bydd pobl yn elwa, fel llesiant gwell, ynghyd â thystiolaeth bod angen hyn.

**Mae'n ein helpu ni:** I ddeall effaith gymdeithasol bosibl eich cynlluniau, a'r tebygolrwydd y byddant yn gynaliadwy yn yr hirdymor, trwy ddiwallu'r angen a galw sydd wedi'i nodi'n glir.

### **3.9 Esboniwch sut y gallai eich prosiect gyfrannu at adfywio'r ardal leol [hyd at 350 gair]**

**Dywedwch wrthym am y canlynol:** Y materion sy'n effeithio ar hyfywedd lleoliad eich adeilad, fel ffactorau economaidd a chymdeithasol, edrychiad y dreflun. Cyfeiriwch at dystiolaeth allanol lle bo hynny'n bosibl, megis a oes gan y lleoliad statws ardal a gynorthwyr. Esboniwch sut mae'ch adeilad yn gysylltiedig â'r ardal leol gyfagos; a yw'n nodwedd bwysig; a yw mewn lleoliad canolog neu mewn porth a fydd yn denu pobl i mewn i'r lle? Os mewn cyd-destun mwy gwledig, eglurwch sefyllfa eich adeilad yn y lleoliad tirwedd ehangach. Esboniwch sut y bydd eich cynlluniau ar gyfer yr adeilad yn cael effaith gadarnhaol e.e. cyflwyno defnyddiau cynaliadwy newydd, cynyddu nifer yr ymwelwyr a gweithgarwch economaidd, gwella ansawdd y lle. Dywedwch wrthym sut mae hyn yn cysylltu ag unrhyw fenter strategol ehangach ar gyfer y lle hwn.

**Mae'n ein helpu ni:** I ddeall potensial eich prosiect i gyfrannu at adfywiad ehangach lleoliad, y tu hwnt i'r adeilad ei hun.

### **Grantiau Gwaith Cyfalaf**

Byddwn eisiau gweld y prosiect yn cael effaith gadarnhaol ar hyfywedd a nodweddion unigryw yr ardal leol. Gallai hynny gynnwys y canlynol: cyflwyno defnyddiau newydd nad oeddent yn nodweddiadol yma o'r blaen a chynnig cyfleoedd newydd i bobl leol; dod ag arwynebedd llawr gwag neu adeiladau cyfan i'r defnydd.

#### **3.10 A oes menter ehangach ar y gweill neu wedi'i gynllunio i adfywio'r ardal?**

Bydd cwmplen o fentrau posibl yn ymddangos. Os nad ydych chi'n gwybod beth sydd ar waith yn eich ardal chi, bydd yn bwysig ymchwilio, gan gynnwys siarad â sefydliadau perthnasol yn lleol, er mwyn darganfod.

#### **3.11 Sut ydych chi'n gwybod y bydd eich cynlluniau ar gyfer yr adeilad yn hyfyw yn economaidd? [hyd at 200 o eiriau]**

*(Os dewisoch chi Grant Hyfywedd Prosiect fel y cynllun rydych chi'n gwneud cais amdano, ni fydd y cwestiwn hwn yn ymddangos ar y ffurflen gan nad yw'n berthnasol i chi.)*

**Dywedwch wrthym am y canlynol:** Y gwaith a'r ymchwil rydych wedi'i wneud i brofi hyfywedd hir dymor y defnydd arfaethedig. Os ydych eisoes wedi cyflwyno Gwerthusiad Hyfywedd a luniwyd trwy grant gennym ni, gallwch gyfeirio at hyn. Ond fel arall, bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth ategol o hyfywedd - gweler y rhestr wirio.

**Mae'n ein helpu ni:** I ddeall y potensial i'ch prosiect fod yn gynaliadwy yn yr hirdymor.

## **Adran 4: Cais am grant a gwybodaeth ariannol**

#### **4.1 Disgrifiwch y gwaith rydych chi am i ni ei gefnogi gyda'r grant hwn [hyd at 250 gair]**

**Dywedwch wrthym am y canlynol:** Y gwaith penodol rydych chi'n bwriadu ei wneud gyda chymorth ein grant. Os ydych chi'n gwneud cais am hyfywedd neu waith datblygu, cyfeiriwch at y rhestr o gostau y gallwn eu hystyried yn y Canllaw Rhaglen. Disgrifiwch y prif eitemau, gan gyfeirio at ba fathau o weithwyr proffesiynol fydd yn ymgymryd â nhw a'r hyn y byddant yn ei gynhyrchu (dylai hyn alinio â'r costau rhifiadol a nodir yn nghwestiwn 4.10 isod). Esboniwch hefyd unrhyw waith y bydd gwirfoddolwyr yn ei wneud, fel ymchwil ac ymgynghori â'r gymuned ac unrhyw gostau sy'n gysylltiedig. Nid ydym yn talu am amser gwirfoddol, ond gallwn dalu am gost llogi lleoliad, deunyddiau ac ati. Gallwn hefyd gyfrannu at gostau staff a gorbenion rhesymol ar gyfer sefydliadau'r sector gwirfoddol, wedi'u cyfrifo ar sail adennill costau llawn (bydd angen i chi ddangos sut mae unrhyw ddyraniad o orbenion wedi'i gyfrifo - gweler gwefan Cyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol i gael canllawiau).

**Mae'n ein helpu ni:** I ddeall beth yw pwrpas eich cais am grant ac ystyried a yw'n cynrychioli gwerth da am arian. Byddwn hefyd yn ystyried a yw'ch amserlen yn realistig.



### **Grantiau Gwaith Cyfalaf**

Rhowch ddisgrifiad byr, gan esbonio'r gwaith allweddol dan sylw. Esboniwch pa gam rydych chi wedi'i gyrraedd wrth gynllunio'r gwaith hwn e.e. paratowyd dyluniadau a manyleb fanwl iawn. Esboniwch sut rydych chi wedi cyrraedd y ffigurau o ran costau e.e. cynllun o'r costau wedi'i baratoi gan eich syrfëwr meintiau neu dendrau gan gontractwyr. Gofynnir i chi ddarparu mwy o fanylion yn y dogfennau ategol i ddangos bod achos argyhoeddiadol i brofi y bydd yr adeilad yn cael ei adfer a'i ddefnyddio. Gallai hyn gynnwys adeiladau sy'n cael eu "defnyddio yn y cyfamser", ar yr amod bod y gwaith i sicrhau bod yr adeilad yn ddiogel ac yn gallu gwrthsefyll tywydd gwael wedi'i gwblhau.

#### **4.2 Esboniwch sut y bydd y gwaith hwn yn eich helpu i symud ymlaen. [hyd at 200 o eiriau]**

**Dywedwch wrthym am y canlynol:** Sut y bydd y gwaith hwn yn helpu'r prosiect i symud i'r cam nesaf? Sut y bydd yn eich helpu i wneud penderfyniadau neu gymryd camau i symud y prosiect yn ei flaen? Beth fydd wedi newid neu wedi'i gyflawni o ganlyniad i'r gwaith yn digwydd?

**Mae'n ein helpu ni:** I ddeall pam eich bod angen ein cyllid, ac a ydych yn cymryd camau cadarn tuag at symud y prosiect yn ei flaen.

#### **4.3 Pam ei bod yn hanfodol i'r gwaith hwn gael ei wneud nawr?[hyd at 150 o eiriau]**

**Dywedwch wrthym am y canlynol:** Brys y gwaith hwn. Soniwch am unrhyw ffactorau penodol sy'n effeithio ar hyn, megis dyddiadau cau y mae'n rhaid i chi eu cwrdd, argaeledd cyllidau eraill sydd â therfyn amser, unrhyw fygythiadau penodol sy'n ymwneud â chyflwr yr adeilad, amgylchiadau sy'n ymwneud â meddiant/caffaeliad.

**Mae'n ein helpu ni:** I flaenoriaethu ceisiadau am gyllid dros amser.

#### **4.4 Beth yw lefel cronfeydd wrth gefn am ddim eich sefydliad?**

Cronfeydd wrth gefn am ddim yw cronfeydd anghyfyngedig eich sefydliad sydd ar gael am ddim i'w gwario ar unrhyw un o ddibenion y sefydliad. Nid yw'r diffiniad hwn yn cynnwys cronfeydd incwm cyfyngedig a chronfeydd gwaddol, er y gallai dal cronfeydd o'r fath ddylanwadu ar bolisi cronfeydd wrth gefn sefydliad. Fel rheol, bydd cronfeydd wrth gefn hefyd yn eithrio asedau sefydlog diriaethol fel tir, adeiladau ac asedau eraill a ddelir at ddefnydd yr elusen. Mae hefyd yn eithrio symiau a ddynodwyd ar gyfer gwariant hanfodol yn y dyfodol.

#### **4.5 Gan ystyried eich sefyllfa ariannol, pam mae angen y grant hwn arnoch chi? [hyd at 200 o eiriau]**

**Dywedwch wrthym am y canlynol:** Eich sefyllfa ariannol a pham na allwch dalu holl gost y gwaith hwn o ffynonellau eraill. Os oes gan eich sefydliad gronfeydd wrth gefn sylweddol heb eu hymrwymo, esboniwch pam na ellir defnyddio'r rhain, yn ddelfrydol gyda datganiad o bolisi cronfeydd wrth gefn. Bydd angen i chi ddarparu copi o'ch cyfrifon diweddaraf fel dogfen ategol.

**Mae'n ein helpu ni:** Ystyriwch a oes angen ariannol arnoch am ein cyllid.

#### 4.7 Beth yw amcangyfrif o gyfanswm cost cyfalaf y prosiect? [£ ]

Yma rydym yn chwilio am amcangyfrif o faint o gyllid rydych chi'n meddwl fydd ei angen yn gyffredinol i gyflawni'ch prosiect cyfan - nid y costau rydych chi'n gofyn i ni amdany'n nhw nawr yn unig.

##### **Grantiau Gwaith Cyfalaf**

Os ydych chi'n gwneud cais am un cam o waith cyfalaf, dylai'r cyfanswm hwn fod yn seiliedig ar dendrau a dderbyniwyd neu, o leiaf, amcangyfrifon o'r costau a ddarperir gan eich syrfëwr meintiau. Os ydych chi'n dilyn dull gyda nifer o gamau i ddod â'r adeilad(au) yn ôl i ddefnydd, darparwch y cyfanswm ar gyfer y cam sy'n ganolbwynt i'r cais hwn.

#### 4.8 Beth yw eich cynllun ar gyfer casglu'r cyllid cyfalaf sy'n ofynnol? [hyd at 50 o eiriau]

**Dywedwch wrthym am y canlynol:** Pa gyllidwyr posib ydych chi wedi'u nodi ar gyfer y gwaith cyfalaf y bydd ei angen ar yr adeilad? Pa waith ydych chi wedi'i wneud i nodi sut y bydd eich prosiect yn cyd-fynd â'u gofynion a'u blaenoriaethau cyllido? Os ydych chi wedi gwneud unrhyw geisiadau cyllid cyfalaf, rhwch fanylion yn y tabl isod.

**Mae'n ein helpu ni:** I ddeall y tebygolrwydd y bydd y prosiect yn mynd yn ei flaen.

#### 4.11 Rhestrwch yr eitemau gwaith yr hoffech i ni eu hariannu a chost pob un:

Yn y tabl hwn, nodwch y prif eitemau gwaith fel y disgrifir yn 4.1 uchod. Mae cais cyffredinol yn debygol o gynnwys ystod o wasanaethau proffesiynol - dangoswch bob prif fath o wasanaeth ar wahân. Nodwch nifer y diwrnodau a'r gyfradd y dydd ar gyfer pob gweithiwr proffesiynol. Os nad ydych chi wedi cael dyfynbrisiau cyn y cais, gellir amcangyfrif y rhain. Os dyfernir grant, bydd angen cael tendrau cystadleuol lle bydd ffioedd gweithiwr proffesiynol neu gost eitem yn fwy na £10,000. Fodd bynnag, argymhellir ceisio dyfynbrisiau cystadleuol o dan y trothwy hwn fel y gallwch wirio gwerth am arian. Os ydych chi'n cynnwys unrhyw orbenion yn seiliedig ar adennill costau llawn, dylech gynnwys cyfanswm y ffigur a disgrifiad byr o'r hyn sy'n cael ei gwmpasu. Bydd hefyd angen darparu cyfrifiad manylach mewn dogfen ategol. Os ydych chi'n gofyn i ni dalu am gyfran o gyfanswm y costau, cofiwch gynnwys yr holl gostau perthnasol yma.

##### **Grantiau Gwaith Cyfalaf**

Os ydych chi'n gwneud cais am arian cyfalaf, defnyddiwch y tabl i nodi prif elfennau'r rhaglen adeiladu a'u cost. Dylid darparu cynllun cost a baratowyd gan eich syrfëwr meintiau neu dendrau gan gontractwyr adeiladu fel dogfennau ategol, os ydynt ar gael.

#### 4.12 Rhestrwch y cyllid a sicrhawyd gan ffynonellau eraill neu y gwnaed cais amdano i gyfateb grant gennym ni

Yn y tabl hwn, cynhwyswch y grantiau nad ydynt yn grantiau'r Gronfa Treftadaeth Bensaernïol, cronfeydd eraill a gasglwyd, a/neu'ch cronfeydd eich hun rydych chi'n disgwyl gallu eu rhoi tuag at y costau sydd wedi'u cynnwys yn eich cais. Peidiwch â chynnwys gwerth amser gwirfoddol.

#### **4.13 Cyfanswm y cais am grant y Gronfa Treftadaeth Bensaernïol**

Dywedwch wrthym yma faint o arian rydych chi'n gofyn amdano gennym ni. Dylai'r swm hwn fel rheol fod yn gyfanswm cost y datblygiad a ddangosir yn 4.11, heb unrhyw arian cyfatebol a ddangosir yn 4.12. Er enghraifft, os ydych wedi dangos £20,000 o waith yn 4.11, ac wedi sicrhau £10,000 o gronfeydd mewn man arall a restrir yn 4.12, yna byddai'r cais am grant y Gronfa Treftadaeth Bensaernïol fel arfer yn £10,000 - 50% o gyfanswm cost y datblygu.

Bydd y ffurflen yn ceisio cyfrifo hyn ar eich cyfer yn seiliedig ar yr hyn a nodwch yn 4.11 a 4.12; os nad yw'n gywir oherwydd bod y sefyllfa'n fwy cymhleth, yna gallwch chi ddiystyru'r cyfrifiad awtomatig a nodi swm a chanran y gofynnwyd amdani â llaw.

## Adran 5: Rhestr wirio o ddogfennau a lluniau ategol

**Lanlwythwch y dogfennau ategol trwy'r ffurflen gais ar-lein.** Os na allwch lanlwytho'r dogfennau ategol ar-lein, byddwn yn derbyn copïau electronig trwy e-bost neu drwy safle rhannu ffeiliau. Os gwnaethoch gyflwyno unrhyw ddogfennau gyda chais blaenorol ac na wnaed unrhyw newidiadau ers hynny, nid oes angen i chi eu hail-anfon, ond cyfeiriwch at eich cais blaenorol.

Rydym yn cydnabod na fydd yr holl ddogfennau sydd eu hangen arnom yn barod adeg y cais. Fodd bynnag, os ydym yn dyfarnu grant, bydd angen i ni weld a chymeradwyo'r dogfennau hyn cyn i'ch gwaith a ariennir ddechrau.

### Hanfodol i bob ymgeisydd:

1. Dogfen lywodraethol eich sefydliad (os na chafodd ei darparu o'r blaen).
2. Rhestr o ymddiriedolwyr neu gyfarwyddwyr cyfredol, a disgrifiad byr iawn o'u rolau a'u profiad perthnasol.
3. Copi o gofnodion cyfarfod gyda ymddiriedolwyr neu gyfarwyddwyr eich sefydliad, gan gofnodi'n ffurfiol y penderfyniad i fynd â'r prosiect yn ei flaen a gwneud cais am grant gan y Gronfa Treftadaeth Bensaernïol.
4. Cyfrifon a archwilwyd a mantolen ddiweddaraf eich sefydliad, cyfrifon rheoli diweddar (os ydynt ar gael) neu ddatganiad ariannol ardystiedig cyfredol.
5. O leiaf chwe delwedd ddigidol o ansawdd uchel o du mewn a thu allan yr adeilad ac unrhyw ddigwyddiadau a gweithgareddau cymunedol cysylltiedig.

### Hanfodol i bob ymgeisydd ac eithrio y rhai sy'n ymgeisio am Grant Hyfywedd Prosiect

6. Prawf o feddiant eich sefydliad ar yr adeilad (e.e. copi o'r weithred eiddo o'r Gofrestrfa Tir) neu dystiolaeth y gall eich sefydliad gaffael yr adeilad (e.e. llythyr gan y perchennog yn nodi parodrwydd mewn egwyddor i drosglwyddo meddiant i'ch sefydliad).
7. Adroddiad Hyfywedd, Astudiaeth Ddichonoldeb neu Arfarniad o'r Opsiyau. Dylent gynnwys y canlynol:
  - a. Tystiolaeth bod y cynigion yn debygol o gael eu caniatu yn nhermau cynllunio a chadwraeth (e.e. copi o'r cyngor cyn gwneud cais a dderbyniwyd gan yr awdurdod cynllunio lleol)
  - b. Tystiolaeth o ymgynghori â'r gymuned/rhanddeiliaid
  - c. Adroddiad o'r ymchwil marchnad/tystiolaeth o'r g alw gan ddefnyddwyr

### Eitemau ychwanegol ar gyfer Grantiau Datblygu Prosiect a Grantiau Gwaith Cyfalaf

Efallai na fydd eich cais am grant yn cynnwys yr holl eitemau gwaith a nodwyd, ac os felly, **dim ond os yw'n berthnasol y bydd angen anfon y wybodaeth.** Mae gwybodaeth ategol yn cryfhau'r cais gan ei fod yn ein helpu i asesu hyfywedd cyffredinol y prosiect a sut y gallai ein cronfeydd helpu i symud y prosiect yn ei flaen.

8. Cynllun busnes.
9. Adroddiad prisio, os yw'n berthnasol, er enghraifft i gefnogi cyfrifo diffyg cadwraeth, neu mewn perthynas ag ariannu'r prosiect.
10. Adroddiad ar gyflwr yr adeilad/arolwg strwythurol.
11. Datganiad seiliedig ar Dreftadaeth ac Asesiad Effaith.
12. Copi o friffiau ar gyfer gwaith datblygu.
13. Rhestr o'r ymgynghorwyr a wahoddwyd i roi dyfynbris am y gwaith datblygu a chopi o'r dyfynbris neu'r tendr a ffefrir.
14. Disgrifiad o'r swydd a manyleb person yr unigolyn/unigolion a fydd yn gweithio ar y prosiect (naill ai staff presennol neu staff newydd i'w penodi).
15. CV yr unigolyn a recriwtiwyd i weithio ar y prosiect.
16. Cyfrifo dyraniad o'r costau gorbenion (gan ddefnyddio'r dull adennill costau llawn).
17. Strategaeth codi arian y prosiect, ynghyd â chadarnhad o'r dyfarniadau a sicrhawyd hyd yma.
18. Gohebiaeth berthnasol â darpar gyllidwyr prosiect.
19. Copïau o unrhyw lythyrau cynnig grant (yn ymwneud â'r gwaith rydych chi'n gofyn i ni ei ariannu).
20. Cytundeb partneriaeth neu Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth.
21. Unrhyw wybodaeth berthnasol arall rydych chi'n meddwl y mae angen i ni ei gweld.

### **Eitemau ychwanegol ar gyfer Grantiau Gwaith Cyfalaf**

22. Lluniadu dyluniadau i RIBA 3 neu 4, fel sy'n berthnasol.
23. Copi o gydsyniad adeilad rhestredig a chaniatâd cynllunio.
24. Cynllun o'r costau (dadansoddiad manwl o gostau cyfalaf).
25. Adroddiad tendr yn nodi'r sylfaen ar gyfer dewis y contractwr adeiladu a ddewiswyd, ynghyd â chopi o'r tendr a ddewiswyd. Bydd angen sicrhau o leiaf tri thendr cystadleuol. Os na ofynnwyd am dendrau cyn gwneud cais, bydd angen darparu'r wybodaeth hon cyn i'r gwaith ddechrau ar y safle.
26. Amserlen neu raglen cyflwyno prosiect, gan ystyried amseriad disgwylidig unrhyw benderfyniadau cyllido sy'n weddill.
27. Cofrestr risg/Cynllun Rheoli Risgiau.
28. Manylion unrhyw reoliadau prosiect neu wasanaethau proffesiynol eraill sy'n gysylltiedig â chyflawni prosiect wedi'u cynnwys yn eich cais am grant.

## **Adran 6: Datganiad a chyflwyniad**

### **6.2 Cadarnhau a chyflwyno**

Mae angen i chi dicio'r blychau i gadarnhau bod gennych ganiatâd i wneud cais a'ch bod yn deall sut y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a gyflwynwyd i ni.

Pan fyddwch chi'n hapus, cliciwch y botwm Cyflwyno. Bydd copi o'ch ymatebion gorffenedig yn cael eu hanfon drwy e-bost i'r prif gyfeiriad cyswllt.